**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 757 (Cy.80)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi, ar gyfer Cymru, ddangosyddion perfformiad y cyfeirir atynt er mwyn mesur perfformiad y cynghorau sir, y cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (fel awdurdodau gwerth gorau), wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, o 1 Ebrill 2002 ymlaen.

Gwneir y Gorchymyn yn unol ag adrannau 4(1)(a) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Mae adran 4(3) o'r Ddeddf honno yn gosod rhwymedigaeth ar y Cynulliad Cenedlaethol i ymgynghori, cyn gwneud Gorchymyn o'r math hwn, â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli'r awdurdodau gwerth gorau o dan sylw ac unrhyw bersonau eraill (os oes rhai) y gwêl yn dda. Mae'r gofyniad hwn i ymgynghori wedi'i fodloni cyn i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud.

Mae Erthygl 3 yn diffinio pa awdurdodau gwerth gorau y bydd yn rhaid mesur eu perfformiad, mewn perthynas â swyddogaethau penodol, drwy gyfeirio at y dangosyddion perfformiad penodedig.

Drwy gyfeirio at yr Atodlenni, mae Erthygl 4 yn rhagnodi pa ddangosyddion perfformiad a gaiff eu defnyddio i fesur pa swyddogaethau ar gyfer y gwahanol awdurdodau gwerth gorau.

Mae Atodlenni 1 i 12 yn manylu ar y dangosyddion rhagnodedig ar gyfer y gwahanol swyddogaethau fel a ganlyn:

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 757 (W.80)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order prescribes, for Wales, performance indicators by reference to which the performance of county councils, county borough councils and National Park authorities (as best value authorities), in exercising their functions, will be measured from 1st April 2002.

The Order is made in accordance with sections 4(1)(a) and (2) of the Local Government Act 1999. Section 4(3) of that Act imposes an obligation on the National Assembly to consult, prior to the making of an Order of this nature, persons appearing to represent the best value authorities concerned and such other persons (if any) as it thinks fit. This consultation requirement has been fulfilled prior to the making of this Order.

Article 3 defines which best value authorities will be subjected to the measure of their performance, in respect of certain functions, by reference to specified performance indicators.

Article 4 prescribes, by reference to the Schedules, which performance indicators will be used to measure performance of which functions for the respective best value authorities.

Schedules 1 to 12 detail the prescribed indicators for different functions as follows:

Atodlen 1 - Llywodraeth Gorfforaethol

Atodlen 2 - Addysg

Atodlen 3 - Gwasanaethau Cymdeithasol

Atodlen 4 - Tai

Atodlen 5 - Gwasanaethau'r Amgylchedd

Atodlen 6 - Trafnidiaeth

Atodlen 7 - Cynllunio

Atodlen 8 -Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach.

Atodlen 9 - Gwasanaethau Diwylliannol a Pherthynol

Atodlen 10 - Llywodraeth Gorfforaethol Awdurdod Parciau Cenedlaethol

Atodlen 11 - Budd-dâl Tai a Budd-dâl Treth Gyngor

Atodlen 12 - Diogelwch Cymunedol Trawsbynciol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2001 er nad y mwyafrif y dangosyddion wedi newid. Mae'r newidiadau sy'n dilyn wedi'u gwneud i'r dangosyddion yng Ngorchymyn 2001:

Mae'r dangosyddion hyn wedi'u dileu:

NAWPI 2.9, 4.8, 4.9, 11.2, 12.5

Mae'r dangosyddion hyn wedi'u hychwanegu:

NAWPI 2.14, 3.13, 3.14, 3.15, 4.13, 4.14, 4.15, 7.8, 10.12

Mae'r dangosyddion hyn wedi'u diwygio:

NAWPI 1.8, 2.13, 3.2, 5.1, 9.2, 12.2

Yn ogystal mae yna fân ddiwygiadau drafftio wedi'u gwneud i nifer o ddangosyddion eraill.

Mae manylion y dangosyddion (a oedd yn y drydedd colofn o'r atodlenni i'r Gorchmynion blaenorol) hefyd wedi'u dileu. Mae'r manylion bellach wedi'u cynnwys mewn canllawiau i'w cyhoeddi gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Schedule 1 - Corporate Governance

Schedule 2 - Education

Schedule 3 - Social Services

Schedule 4 - Housing

Schedule 5 - Environment Services

Schedule 6 - Transport

Schedule 7 - Planning

Schedule 8 - Environmental Health & Trading Standards

Schedule 9 - Cultural and Related Services

Schedule 10 - National Parks Authority Corporate Governance

Schedule 11 - Housing Benefit and Council Tax Benefit

Schedule 12 - Cross Cutting Community Safety

This Order revokes the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2001 although the majority of the indicators remain the same. The following changes have been made to the indicators in the 2001 Order:

The following indicators have been deleted:

NAWPI 2.9, 4.8, 4.9, 11.2, 12.5

The following indicators have been added:

NAWPI 2.14, 3.13, 3.14, 3.15, 4.13, 4.14, 4.15, 7.8, 10.12

The following indicators have been amended:

NAWPI 1.8, 2.13, 3.2, 5.1, 9.2, 12.2

In addition minor drafting amendments have been made to several other indicators.

The detail for each indicator (contained in the third column of the schedules to the previous Orders) has also been removed, to be replaced by guidance to be issued by the National Assembly.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 757 (Cy.80)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *19 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adrannau 4(1)(a) a (2) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**a**) a hynny ar ôl yr ymgynghori y mae adran 4(3) o'r Ddeddf honno yn gofyn amdano.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diddymu**

**2**. Diddymir Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2001(**b**).

**Dehongli**

**3**. Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "awdurdod gwerth gorau" ("*best value authority*") yw'r canlynol:

- mewn perthynas â Rhan 1 o'r Tabl yn Erthygl 4, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, gan gynnwys, lle bo'n briodol, y cynghorau hynny yn gweithredu fel awdurdodau gwaredu gwastraff
- mewn perthynas â Rhan 2 o'r Tabl hwnnw, awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

(a) 1999 p.27.

(b) O.S. 2001 Rhif 1337 (Cy.83).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 757 (W.80)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2002

| | |
|---|---|
| *Made* | *19th March 2002* |
| *Coming into force* | *1st April 2002* |

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the power conferred on it by sections 4(1)(a) and (2) and 29(1) of the Local Government Act 1999(**a**) and after the consultation required by section 4(3) of that Act.

**Name, commencement and application**

**1**.-(1) This Order is called the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2002 and it comes into force on 1st April 2002.

(2) This Order applies only to Wales.

**Revocation**

**2.** The Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2001(**b**) is revoked.

**Interpretation**

**3**. In this Order-

"best value authority" ("*awdurdod gwerth gorau*") means:

- in relation to Part 1 of the Table in Article 4, county councils and county borough councils including, where appropriate, such councils acting as waste disposal authorities
- in relation to Part 2 of that Table, National Park authorities

(a) 1999 c.27.

(b) S.I. 2001 No. 1337 (W.83).

**Dangosyddion Perfformiad**

**4**. Rhaid i berfformiad awdurdod gwerth gorau wrth arfer ei swyddogaethau gael ei fesur drwy gyfeirio at y dangosyddion perfformiad a bennir yn y Tabl isod mewn perthynas â'r swyddogaethau a nodir yn y Tabl.

**Performance Indicators**

**4**. The performance of a best value authority in exercising its functions shall be measured by reference to the performance indicators specified in the Table below in respect of the functions identified in the Table.

| TABL | TABLE |
|---|---|
| Swyddogaethau'r Awdurdodau Gwerth Gorau a'r Dangosyddion Perfformiad y Mesurir Perfformiad y Swyddogaethau hynny drwyddynt | Best Value Authority Functions and Performance Indicators By Which Performance of Those Functions Will Be Measured |
| **Rhan 1** | **Part 1** |
| **Llywodraeth Gorfforaethol** | **Corporate Governance** |
| | |
| Pob dangosydd yn Atodlen 1 | All indicators in Schedule 1 |
| | |
| **Addysg** | **Education** |
| | |
| Pob dangosydd yn Atodlen 2 | All indicators in Schedule 2 |
| | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Social Services** |
| | |
| Pob dangosydd yn Atodlen 3 | All indicators in Schedule 3 |
| | |
| **Tai** | **Housing** |
| | |
| Pob dangosydd yn Atodlen 4 | All indicators in Schedule 4 |
| | |
| **Gwasanaethau'r Amgylchedd** | **Environment Services** |
| | |
| Pob dangosydd yn Atodlen 5 | All indicators in Schedule 5 |
| | |
| **Trafnidiaeth** | **Transport** |
| | |
| Pob dangosydd yn Atodlen 6 | All indicators in Schedule 6 |
| | |
| **Cynllunio** | **Planning** |
| | |
| Pob dangosydd yn Atodlen 7 | All indicators in Schedule 7 |

| **Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach** |
|---|
| |
| Pob dangosydd yn Atodlen 8 |
| |
| **Gwasanaethau Diwylliannol a Pherthynol** |
| |
| Pob dangosydd yn Atodlen 9 |
| |
| **Budd-dâl Tai a Budd-dâl Treth Gyngor** |
| |
| Pob dangosydd yn Atodlen 11 |
| |
| **Diogelwch Cymunedol Trawsbynciol** |
| |
| Pob dangosydd yn Atodlen 12 |
| |
| **<u>Rhan 2</u>** |
| **Llywodraeth Gorfforaethol Awdurdod Parciau Cenedlaethol**<br><br>Pob dangosydd yn Atodlenni 7 a 10 |

| **Environmental Health and Trading Standards** |
|---|
| |
| All indicators in Schedule 8 |
| |
| **Cultural and Related Services** |
| |
| All indicators in Schedule 9 |
| |
| **Housing Benefit and Council Tax Benefit** |
| |
| All indicators in Schedule 11 |
| |
| **Cross Cutting Community Safety** |
| |
| All indicators in Schedule 12 |
| |
| **<u>Part 2</u>** |
| **National Parks Authority Corporate Governance**<br><br>All indicators in Schedules 7 and 10 |

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

19 Mawrth 2002

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

19th March 2002

*John Marek*

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

**ATODLEN /SCHEDULE 1**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION LLYWODRAETH GORFFORAETHOL/CORPORATE GOVERNANCE INDICATORS**

| **Rhif y Dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 1.1 | Lefelau cydymffurfio â chynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod gwerth gorau a gadarnhawyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. | The levels of compliance with the best value authority's approved Welsh language scheme as confirmed by the Welsh Language Board. |
| NAWPI 1.2 | Lefel safon y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer llywodraeth leol y mae'r awdurdod gwerth gorau yn cydymffurfio â hi. | The level of the Commission for Racial Equality's standard for local government to which the best value authority conforms. |
| NAWPI 1.3 | Nifer y cwynion i Ombudsmon a ddosbarthwyd fel camweinyddu. | The number of complaints to an Ombudsman classified as maladministration. |
| NAWPI 1.4 | Y gyfran o'r gofrestr etholiadol a bleidleisiodd mewn etholiadau lleol (fel canran). | The proportion of the electoral roll voting in local elections (percentage). |
| NAWPI 1.5 | Y ganran o gydadweithiau â'r cyhoedd, yn ôl y math o weithrediad, y gellir eu cyflwyno drwy wasanaeth electronig sy'n cael eu cyflwyno wrth ddefnyddio rhyngrwyd a dulliau dibapur eraill. | The percentage of interactions with the public, by type of transaction, which are capable of electronic service delivery which are being delivered using internet protocols or other paperless methods. |
| NAWPI 1.6 | Y ganran o anfonebau diddadl a dalwyd gan yr awdurdod gwerth gorau o fewn 30 diwrnod iddynt ddod i law. | The percentage of undisputed invoices which were paid by the best value authority within 30 days of such invoices being received. |
| NAWPI 1.7 | Swm y dreth gyngor a gafwyd yn y flwyddyn ariannol fel canran o gyfanswm y debyd ar gyfer y flwyddyn ariannol. | The amount of council tax received in the financial year as a percentage of the total debit for the financial year. |
| NAWPI 1.8 | Swm yr ardrethi annomestig a gafwyd, yn glir o ad-daliadau yn y flwyddyn adrodd fel canran o'r ardrethi gros sy'n daladwy yn y flwyddyn ariannol, wedi'i addasu ar gyfer rhyddhad trosiannol, yn llai rhyddhad ar eiddo bach a phob rhyddhad gorddewisol a gorfodol. | The amount of non-domestic rates received, net of refunds, in the reporting year as a percentage of the gross rates payable for the financial year, adjusted for transitional relief, less small property relief and all discretionary and mandatory reliefs. |
| NAWPI 1.9 | Y ganran o swyddi rheoli uwch a ddelir gan fenywod. Dylid eithrio'r holl staff mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau o'r cyfrif hwn. | The percentage of senior management posts filled by women.All staff in schools maintained by the best value authority should be excluded from this calculation. |
| NAWPI 1.10 | Y nifer o'r dyddiau gwaith neu sifftiau am bob cyflogai cyfwerth amser llawn a gollwyd trwy absenoldeb oherwydd salwch gan weithwyr parhaol yr awdurdod gwerth gorau. | The number of working days or shifts per full time equivalent of all permanent best value authority employees lost due to sickness absence. |

| | | |
|---|---|---|
| NAWPI 1.12 | Ymddeoliadau ar sail afiechyd fel canran o weithlu'r awdurdod gwerth gorau. | Ill health retirements as a percentage of the best value authority's workforce. |
| NAWPI 1.13 | Nifer y staff sy'n datgan eu bod yn ateb y diffiniad o anabledd yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (p.50) fel canran o weithlu'r awdurdod gwerth gorau. | The number of staff declaring that they meet the Disability Discrimination Act 1995 (c.50) disability definition as a percentage of the best value authority's workforce. |
| NAWPI 1.14 | Y nifer o weithwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol o fewn gweithlu'r awdurdod gwerth gorau fel canran o gyfanswm gweithlu'r awdurdod. | The number of staff from minority ethnic communities within the best value authority's workforce as a percentage of the total workforce of the authority. |
| NAWPI 1.15 | Y ganran o adeiladau'r awdurdod gwerth gorau sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n addas ac yn hygyrch i bobl anabl. | The percentage of the best value authority's buildings open to the public and that are suitable and accessible to disabled people. |
| NAWPI 1.16 | Digwyddiadau hiliol<br>(a) nifer y digwyddiadau hiliol a gofnodir gan yr awdurdod gwerth gorau am bob 100,000 o'i boblogaeth<br>(b) y ganran o'r digwyddiadau hiliol a arweiniodd at weithredu pellach. | Racial incidents<br>(a) the number of racial incidents recorded by the best value authority per 100,000 of its population<br>(b) the percentage of racial incidents that resulted in further action. |
| NAWPI 1.17 | Y nifer o leoedd mewn lloches rhag trais domestig am bob 10,000 o'r boblogaeth a ddarperir neu a gefnogir gan yr awdurdod gwerth gorau. | The number of domestic violence refuge places per 10,000 population which are provided or supported by the best value authority. |

**ATODLEN /SCHEDULE 2**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION ADDYSG/EDUCATION INDICATORS**

| **Rhif y Dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 2.1 | Cyfartaledd sgôr pwyntiau TGAU/GNVQ plant 15/16 oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau. | Average GCSE/GNVQ point score of 15/16 year olds in schools maintained by the best value authority. |
| NAWPI 2.2 | Canran y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau yn yr haf blaenorol a enillodd 5 TGAU neu ragor gyda graddau A* i C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. | Percentage of pupils in schools maintained by the best value authority in the previous summer achieving 5 or more GCSEs at grades A* to C or the vocational equivalent. |
| NAWPI 2.3 | Canran y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau yn yr haf blaenorol a enillodd un TGAU neu ragor gyda gradd G neu uwch neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. | Percentage of pupils in schools maintained by the best value authority in the previous summer achieving one or more GCSEs at grade G or above or vocational equivalent. |
| NAWPI 2.4 | Canran y plant 11 oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau yn yr haf flaenorol a enillodd:<br>(a) Lefel 4 neu'n uwch na hynny ym mhrawf Mathemateg Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol.<br>(b) Lefel 4 neu'n uwch na hynny ym mhrawf Saesneg Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol.<br>(c) Lefel 4 neu'n uwch na hynny ym mhrawf Cymraeg (iaith gyntaf) Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol.<br>(ch) Lefel 4 neu'n uwch na hynny ym mhrawf Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol. | Percentage of 11 year olds in schools maintained by the best value authority in the previous summer achieving:<br>(a) Level 4 or above in the National Curriculum Key Stage 2 Mathematics test.<br>(b) Level 4 or above in the National Curriculum Key Stage 2 English test.<br>(c) Level 4 or above in the National Curriculum Key Stage 2 Welsh (first language) test.<br>(d) Level 4 or above in the National Curriculum Key Stage 2 Science test. |
| NAWPI 2.5 | Canran y plant 14 oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau yn yr haf flaenorol a enillodd:<br>(a) Lefel 5 neu'n uwch na hynny ym mhrawf Mathemateg Cyfnod Allweddol 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol.<br>(b) Lefel 5 neu'n uwch na hynny ym mhrawf Saesneg Cyfnod Allweddol 3 y Cwricwlwm | Percentage of 14 year olds in schools maintained by the best value authority in the previous summer achieving:<br>(a) Level 5 or above in the National Curriculum Key Stage 3 Mathematics test.<br>(b) Level 5 or above in the National Curriculum Key Stage 3 English test. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cenedlaethol.<br>(c) Lefel 5 neu'n uwch na hynny ym mhrawf Cymraeg (iaith gyntaf) Cyfnod Allweddol 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol.<br>(ch) Lefel 5 neu'n uwch na hynny ym mhrawf Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol. | (c) Level 5 or above in the National Curriculum Key Stage 3 Welsh (first language) test<br>(d) Level 5 or above in the National Curriculum Key Stage 3 Science test. |
| NAWPI 2.6 | Canran y plant 15/16 oed sy'n ennill y “dangosydd pwnc craidd” - y disgyblion hynny sy'n ennill gradd C o leiaf mewn TGAU, Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad. | Percentage of 15/16 year olds achieving the “core subject indicator” - those pupils achieving at least grade C in GSCE English or Welsh, Mathematics and Science in combination. |
| NAWPI 2.7 | Canran y plant 15/16 oed sy'n ymadael ag addysg amser-llawn heb gymhwyster cydnabyddedig. | Percentage of 15/16 year olds leaving full time education without a recognised qualification. |
| NAWPI 2.8 | Nifer y disgyblion a waharddwyd yn barhaol yn ystod y flwyddyn o ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau am bob 1000 o ddisgyblion ar gofrestri ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau:<br>(a) mewn ysgolion cynradd.<br>(b) mewn ysgolion uwchradd.<br>(c) mewn ysgolion arbennig. | Number of pupils permanently excluded during the year from schools maintained by the best value authority per 1000 pupils on rolls of schools maintained by the best value authority:<br>(a) for primary schools.<br>(b) for secondary schools.<br>(c) for special schools. |
| NAWPI 2.11 | Y ganran o'r disgyblion a waharddwyd yn barhaol sy'n dilyn:<br>(a) llai na 10 awr yr wythnos o addysgu arall<br>(b) rhwng 10 a 25 awr yr wythnos o addysgu arall<br>(c) rhagor na 25 awr yr wythnos o addysgu arall. | The percentage of permanently excluded pupils attending:<br>(a) less than 10 hours a week of alternative tuition<br>(b) between 10 and 25 hours a week of alternative tuition<br>(c) more than 25 hours a week of alternative tuition. |
| NAWPI 2.12 | Y ganran o'r dosbarthiadau ysgol gynradd gyda mwy na 30 disgybl yn y blynyddoedd:<br>(a) derbyn i ddau yn gynwysedig<br>(b) tri i chwech. | The percentage of primary school classes with more than 30 pupils in years:<br>(a) reception to two inclusive<br>(b) three to six. |
| NAWPI 2.13 | (a) Nifer y datganiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn<br>(b) Y ganran o'r datganiadau anghenion addysgol arbennig, gan eithrio y rhai a gyfrifir yn "eithriadau i'r rheol" yn unol â'r Cod Ymarfer AAA (Anghgenion Addysg Arbennig):<br>(i) a baratowyd o fewn 18 | (a) The number of statements issued during the year<br>(b) The percentage of statements with special educational need excluding those affected by the "exceptions to the rule" under the SEN (Special Education Needs) code of practice:<br>(i) prepared within 18 weeks, |

| | | |
|---|---|---|
| | wythnos,<br>(ii) a orffenwyd o fewn 26 wythnos. | (ii) finalised within 26 weeks. |
| NAWPI 2.14 | Y ganran o bresenoldeb y rhai sy'n mynychu ysgolion uwchradd neu sydd yno yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgiadol sydd wedi'u cymeradwyo. | The percentage of attendance of those present or on approved educational activities in secondary schools. |

**ATODLEN/SCHEDULE 3**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL/SOCIAL SERVICES INDICATORS**

| **Rhif y Dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 3.1 | Sefydlogrwydd lleoliadau'r plant yn derbyn gofal gan yr awdurdod gwerth gorau drwy gyfeirio at ganran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a gafodd dri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn ariannol. | Stability of placements of children looked after by the best value authority by reference to the percentage of children looked after at the 31st March with three or more placements during the financial year. |
| NAWPI 3.2 | Cymwysterau addysgol plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod gwerth gorau drwy gyfeirio at y ganran o'r bobl ifanc 16 oed a throsodd a ymadawodd â gofal gyda'r nifer isod o TGAU gradd A* i G neu Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol (GNVQ):<br>(a) un neu ragor<br>(b) dau neu ragor. | Educational qualifications of children looked after by the best value authority by reference to the percentage of young people leaving care age 16 or over with the following numbers of GCSEs at Grade A* to G or General National Vocational Qualification (GNVQ):<br>(a) one or more<br>(b) two or more. |
| NAWPI 3.3 | Y gyfran o bobl ifanc mewn gofal ar eu pen-blwydd yn 16 oed y mae ganddynt gynllun gofal a/neu gynllun llwybr fel sy'n addas ar gyfer eu gofal parhaol. | The percentage of young people in care on their 16th birthday who have a suitable care and/or pathway plan as appropriate for their continuing care. |
| NAWPI 3.4 | Canran y lleoliadau cyntaf (i blant sy'n derbyn gofal) sy'n dechrau gyda chynllun gofal wedi'i sefydlu. | The percentage of first placements (for looked after children) beginning with a care plan in place. |
| NAWPI 3.5 | Costau gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod gwerth gorau drwy gyfeirio at wariant wythnosol gros am bob plentyn y gofelir amdano, mewn gofal maeth neu gartref i blant. | Cost of services for children looked after by a best value authority by reference to gross weekly expenditure per looked after child in foster care or in a children's home. |
| NAWPI 3.6 | Y gost o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i oedolion drwy gyfeirio at gost gros bob wythnos am:<br>(a) gofal cartrefi preswyl a nyrsio<br>(b) gofal cartref. | The cost of providing social services to adults by reference to the gross cost per week for:<br>(a) residential and nursing home care<br>(b) home care. |
| NAWPI 3.7 | Y gyfradd o'r bobl hyn (65 oed neu drosodd) y rhoddwyd cymorth iddynt fyw gartref am bob 1,000 o boblogaeth yr awdurdod gwerth gorau sy'n 65 oed neu drosodd. | The rate of older people (aged 65 or above) helped to live at home per 1,000 of the best value authority population aged 65 or over. |
| NAWPI3.8 | Y gyfradd o drosglwyddiadau gofal a ohirir am resymau gofal cymdeithasol am bob 1000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd yn yr awdurdod gwerth gorau. | The rate of delayed transfers of care for social care reasons per 1,000 population of the best value authority aged 75 or over. |

| | | |
|---|---|---|
| NAWPI 3.9 | Y ganran o oedolion o gleientau sy'n cael datganiad o'u hanghenion a sut y byddant yn cael eu diwallu. | The percentage of adult clients receiving a written statement of their needs and how they will be met. |
| NAWPI 3.10 | Y gyfradd o asesiadau o bobl 65 oed a throsodd am bob 1000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd yn yr awdurdod gwerth gorau. | The rate of assessments of people aged 65 and over per 1,000 population of the best value authority aged 65 or over. |
| NAWPI 3.11 | Nifer y nosweithiau o ofal seibiant a ddarperir neu a gyllidir gan yr awdurdod gwerth gorau am bob 1,000 o'r boblogaeth 18 oed neu drosodd yn yr awdurdod. | The number of nights of respite care provided or funded by the best value authority per 1,000 population of the authority aged 18 or over. |
| NAWPI 3.12 | Y ganran o'r plant ar y gofrestr amddiffyn plant y dylid wedi adolygu eu hachosion, ac y cafodd eu hachosion eu hadolygu. | The percentage of children on the child protection register whose cases should have been reviewed that were reviewed. |
| NAWPI 3.13 | Y nifer o bobl 65 neu drosodd sy'n derbyn cymorth gan yr awdurdod gwerth gorau mewn cartrefi gofal preswyl neu gartrefi nyrsio am bob 1,000 o boblogaeth yr awdurdod sy'n 65 oed neu drosodd. | The number of people aged 65 or over whom the best value authority supports in residential care homes or nursing homes per 1,000 population of the authority aged 65 or over. |
| NAWPI 3.14 | Y nifer o oedolion o dan 65 oed y mae'r awdurdod gwerth gorau yn eu helpu i fyw gartref am bob 1,000 o oedolion o dan 65 oed yn yr awdurdod, ym mhob un o'r grwpiau isod, o'u hystyried ar wahân:<br>(a) y rhai ag anabledd corfforol neu anabledd i'r synhwyrau,<br>(b) y rhai ag anabledd dysgu,<br>(c) y rhai â phroblemau iechyd meddwl. | The number of adults aged under 65 whom the best value authority helps to live at home per 1,000 adults aged under 65, in each of the following groups separately:<br>(a) physical or sensory disabled,<br>(b) learning disabled,<br>(c) with mental health problems. |
| NAWPI 3.15 | Y ganran o achosion lle mae plant yn derbyn gwasanaeth gan weithiwr cymdeithasol neilltuedig sy'n addas i anghenion y plentyn, ym mhob un o'r grwpiau canlynol, o'u hystyried ar wahân:<br>(a) plant ar y gofrestr amddiffyn plant,<br>(b) plant sy'n derbyn gofal (peidiwch â chynnwys y plant sydd yng ngrwp (a) uchod),<br>(c) plant mewn angen (peidiwch â chynnwys y plant sydd yng ngrwpiau (a) a (b) uchod). | The percentage of cases of children with an allocated social worker who is providing a service appropriate to the child's need, in each of the following groups seperately:<br>(a) children on the child protection register,<br>(b) children looked after (exclude those children in group (a) above),<br>(c) children in need (exclude those children in group (a) and (b) above). |

**ATODLEN/SCHEDULE 4**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION TAI/HOUSING INDICATORS**

| **Rhif y Dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 4.1 | Y gyfran o anheddau sector preifat lle mae gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod gwerth gorau wedi golygu:<br>(a) anheddau an-ffit wedi'u gwneud yn ffit neu wedi'u dymchwel<br>(b) anheddau yn dychwelyd i feddiannaeth yn ystod blwyddyn ariannol pan fuont yn sefyll yn wag am fwy na chwe mis ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. | The proportion of private sector dwellings where direct action by the best value authority has resulted in:<br>(a) unfit dwellings being made fit or demolished<br>(b) return to occupation during a financial year where dwellings where dwellings have been vacant for more than 6 months at the beginning of the financial year. |
| NAWPI 4.2 | Effeithlonrwydd Ynni - dosbarthiad cyfartalog y Weithdrefn Asesu Safonol ar gyfer anheddau ym mherchenogaeth yr awdurdod gwerth gorau. | Energy Efficiency - the average Standard Assessment Procedure rating of best value authority owned dwellings. |
| NAWPI 4.5 | Casglu rhent ac ôl-ddyledion gan awdurdod gwerth gorau:<br>(a) ôl-ddyledion rhent y tenantiaid cyfredol fel cyfran o gyfanswm rhestr rhenti'r awdurdod gwerth gorau<br>(b) ôl-ddyledion rhent cyn-denantiaid fel cyfran o restr rhent yr awdurdod gwerth gorau<br>(c) rhent cyn-denantiaid a thenantiaid cyfredol a ddilëwyd gan na ellir ei gasglu, fel cyfran o gyfanswm rhestr rhenti'r awdurdod gwerth gorau. | Best value authority rent collection and arrears:<br>(a) rent arrears of current tenants as a proportion of the best value authority's rent roll<br>(b) rent arrears of former tenants as a proportion of the best value authority's rent roll<br>(c) rent of current and former tenants written off as not collectable as a proprtion of the best value authority's rent roll. |
| NAWPI 4.6 | Y gyfran o geisiadau digartrefedd y mae'r awdurdod gwerth gorau yn gwneud penderfyniad arnynt ac yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r ceisydd o fewn 33 diwrnod gwaith. | Proportion of homelessness applications on which the best value authority makes a decision and issues written notification to the applicant within 33 working days. |
| NAWPI 4.7 | Cyfartaledd amserau ailosod ar gyfer anheddau'r awdurdod gwerth gorau a osodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. | Average relet times for best value authority dwellings let during the financial year. |
| NAWPI 4.10 | Y ganran o atgyweiriadau a gwblhawyd o fewn yr amser targed<br>(a) wedi'u dosbarthu fel argyfwng<br>(b) wedi'u ddosbarthu fel rhai brys. | Percentage of repairs completed within target time:<br>(a) classed as emergency<br>(b) classed as urgent. |

| | | |
|---|---|---|
| NAWPI 4.11 | Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol nad oeddent yn rhai brys. | The average time taken to complete non-urgent responsive repairs. |
| NAWPI 4.12 | A yw'r awdurdod gwerth gorau yn dilyn cod ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ynglyn â thai ar rent? | Does the best value authority follow the Commission for Racial Equality's code of practice in rented housing? |
| NAWPI 4.13<br>` | Cyfranogiad tenantiaid:<br>(a) A oes yna Gompactau Cyfranogiad Tenantiaid (CCT) sy'n cynnwys pob landlord?<br>(b) Pryd oedd yr adolygiad mwyaf diweddar o CCT yn cynnwys pob landlord mewn partneriaeth gyda thenantiaid?<br>(c) Pa gyfran o denantiaid yr awdurdod gwerth gorau sy'n dod o dan adain CCT lleol neu grwp-benodol? | Tenants' participation:<br>(a) Are there landlord - wide Tenant Participation Compacts (TPC)?<br>(b) When was the most recent review of a landord-wide TPC in partnership with tenants?<br>(c) What proportion of the best value authority tenants are covered by local or group-specific TPCs? |
| NAWPI 4.14 | Effeithiolrwydd y dull cydgysylltiedig o ddelio â digatrefedd a thai cymdeithasol: Y nifer o aelwydydd digartref sy'n cael eu gosod mewn tai dros dro gan yr awdurdod gwerth gorau am fwy na chwe mis. | Effectiveness of co-ordinated approach for dealing with homelessness and social housing: The number of homeless households placed by the best value authority in temporary housing for more than six months. |
| NAWPI 4.15 | Cyfartaledd y rhent am bob tenant sy'n cael ei golli am fod anheddau wedi cael eu gadael yn wag yn ystod y flwyddyn ariannol. | Average rent lost per tenant through dwellings being left vacant during the financial year. |

*Sylwer: At ddibenion dangosyddion perfformiad tai gwerth gorau, diffinnir* ***annedd*** *fel adeilad, neu ran o adeilad sy'n ffurfio safle ar wahân, neu sy'n lled ar wahân ac yn hunan-gynwysiedig, ac a ddyluniwyd i'w meddiannu gan aelwyd unigol.*
*Note: For the purpose of the best value housing performance indicators, a* ***dwelling*** *is defined as a building, or part of a building which forms a separate, or reasonably separate and self contained, set of premises designed to be occupied by a single household.*

**ATODLEN/SCHEDULE 5**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION AMGYLCHEDDOL/ENVIRONMENTAL INDICATORS**

| **Rhif y dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 5.1 | Cyfanswm y gwastraff trefol sy'n codi mewn tunelli -<br>(a) (i) y ganran sydd wedi'i ailgylchu neu ei ailddefnyddio<br>(ii) y ganran o weddillion llosgydd gwastraff, gwastraffoedd glanhau traethau, rwbel a cherbydau gadawedig sydd wedi'u hailgylchu<br>(b) y ganran sydd wedi'i gompostio<br>(c) y ganran sydd wedi'i ddefnyddio i adfer gwres, pŵer a ffynonellau ynni eraill<br>(ch) y ganran sydd wedi'i dirlenwi. | Total tonnage of municipal waste arising -<br>(a) (i) the percentage recycled or reused<br>(ii) the percentage of incinerator residues, beach cleansing wastes, rubble and abandoned vehicles recycled<br>(b) the percentage composted<br>(c) the percentage used to recover heat, power and other energy sources<br>(d) the percentage landfilled. |
| NAWPI 5.5 | Y ganran o briffyrdd a thir perthnasol (fel y diffinir 'relevant land' yn adran 86 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43)) a archwiliwyd ac y mae safon eu glanweithdra yn uchel neu'n dderbyniol. | The percentage of highways and relevant land (as defined in section 86 of the Environmental Protection Act 1990 (c.43)) inspected of a high or acceptable standard of cleanliness. |
| NAWPI 5.6 | Nifer y casgliadau a gollwyd am bob 100,000 o gasgliadau gwastraff cartref. | Number of collections missed per 100,000 collections of household waste. |
| NAWPI 5.7 | Y ganran o boblogaeth yr awdurdod gwerth gorau a wasanaethwyd gan gasgliad wrth ymyl y ffordd o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu. | The percentage of the best value authority population served by a kerbside collection of recyclables. |

**ATODLEN/SCHEDULE 6**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION TRAFNIDIAETH/TRANSPORT INDICATORS**

| **Rhif y dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 6.1 | Cost cynnal priffyrdd am bob km ar y prif ffyrdd. | Cost of highway maintenance per km on principal roads. |
| NAWPI 6.2 | Cost gwasanaethau bysiau â chymhorthdal am bob siwrnai a wneir gan deithiwr. | Cost per passenger journey of subsidised bus services. |
| NAWPI 6.3 | Cyflwr y ffyrdd<br>(a) cyflwr y prif ffyrdd<br>(b) cyflwr ffyrdd heblaw'r prif ffyrdd. | Road conditions:<br>(a) condition of principal roads<br>(b) condition of non principal roads. |
| NAWPI 6.4 | Y ganran o lampau stryd nad ydynt yn gweithio. | Percentage of street lamps not working. |
| NAWPI 6.5 | Nifer yr anafusion mewn damweiniau ffyrdd am bob 100,000 o boblogaeth, wedi'i ddadansoddi yn ôl<br>(a) natur yr anafusion a<br>(b) y math o ddefnyddiwr ffordd. | Number of road accident casualties per 100,000 population broken down by<br>(a) nature of casualties and<br>(b) road user type. |
| NAWPI 6.6 | Nifer y dyddiau o reolaeth traffig dros dro neu o gau ffyrdd a hynny ar ffyrdd sy'n sensitif i draffig wedi'i achosi gan waith ar ffyrdd yr awdurdod gwerth gorau am bob km o ffordd sy'n sensitif i draffig. | Number of days of temporary traffic controls or road closure on traffic sensitive roads caused by best value authority road works per km of traffic sensitive road. |
| NAWPI 6.8 | Cyfanswm y digwyddiadau a hysbyswyd o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau ac a drwsiwyd neu a wnaed yn ddiogel o fewn 24 awr o'r adeg y daeth yr awdurdod gwerth gorau i wybod am y difrod gyntaf, fel canran o'r digwyddiadau hyn. | The total number of reported incidents of dangerous damage to roads and pavements repaired or made safe within 24 hours from the time that the best value authority first became aware of the damage, as a percentage of such incidents. |
| NAWPI 6.9 | Y ganran o'r croesfannau cerddwyr gyda chyfleusterau i bobl anabl. | The percentage of pedestrian crossings with facilities for disabled people. |
| NAWPI 6.10 | Y ganran o gyfanswm hyd y llwybrau troed a hawliau tramwy eraill sy'n hawdd eu defnyddio gan aelodau o'r cyhoedd. | The percentage of the total length of footpaths and other rights of way which are easy to use by members of the public. |

**ATODLEN/SCHEDULE 7**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION CYNLLUNIO/PLANNING INDICATORS**

| **Rhif y dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 7.1 | Cynlluniau datblygu:<br>(a) a oes gan yr awdurdod gwerth gorau gynllun datblygu unedol sydd wedi'i sefydlu?<br>Os nad oes, ewch i (b) a (c)<br>(b) a oes gan yr awdurdod gwerth gorau gynllun datblygu unedol wedi'i adneuo?<br>(c) pa ganran o boblogaeth yr awdurdod gwerth gorau sy'n cael ei gwmpasu gan gynlluniau lleol a fabwysiadwyd yn y pum mlynedd ddiwethaf? | Development plans:<br>(a) does the best value authority have an unitary development plan in place?<br>If no go to (b) and (c)<br>(b) does the best value authority have a deposit unitary development plan in place?<br>(c) what percentage of the best value authority population is covered by local plans which were adopted in the last 5 years? |
| NAWPI 7.3 | Nifer y gwyriadau a hysbysebwyd o'r cynllun datblygu statudol sydd wedi'i fabwysiadu a gymeradwywyd gan yr awdurdod gwerth gorau fel canran o gyfanswm y caniatadau a roddwyd. | The number of advertised departures from the adopted statutory development plan approved by the best value authority as a percentage of total permissions granted. |
| NAWPI 7.4 | Y ganran o gyfanswm y ceisiadau a benderfynwyd o fewn 8 wythnos. | The percentage of total applications determined within 8 weeks. |
| NAWPI 7.6 | Ansawdd mewn gwasanaeth defnyddwyr (Rhestr gyfeirio Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru):-<br>nifer y dangosyddion ansawdd a gyrhaeddir wedi'i fynegi fel cyfran o'u gyfanswm. | Quality in customer service (Planning Officers Society Wales checklist):- the number of quality indicators achieved as a ratio of the total. |
| NAWPI 7.7 | Y ganran o chwiliadau safonol tir statudol a gwblhawyd mewn 10 diwrnod gwaith. | The percentage of standard statutory land searches carried out in 10 working days. |
| NAWPI 7.8 | Oes yna Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Biolegol Lleol ar gyfer ardal yr awdurdod gwerth gorau?<br>Os nac oes,<br>fydd cynllun o'r fath yn cael ei sefydlu o fewn y 12 mis nesaf? | Is a Local Biodiversity Action Plan in place for the best value authority's area?<br>If no,<br>will there to be such a plan in place within the next 12 months? |

**ATODLEN/SCHEDULE 8**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION IECHYD AMGYLCHEDDOL A SAFONAU MASNACH/ENVIRONMENTAL HEALTH AND TRADING STANDARDS INDICATORS**

| **Rhif y dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 8.1 | Y ganran o'r archwiliadau safleoedd bwyd y dylid bod wedi'u cynnal ac a gynhaliwyd mewn gwirionedd ar gyfer:<br>(a) safleoedd risg-uchel<br>(b) safleoedd eraill. | The percentage of food premises inspections that should have been carried out that were carried out for:<br>(a) high risk premises<br>(b) other premises. |
| NAWPI 8.2/ BV 166 | Sgôr yr awdurdod gwerth gorau yn erbyn y rhestr gyfeirio o arferion gorau gorfodi ar gyfer iechyd amgylcheddol/safonau masnach. | The best value authority's score against the checklist of enforcement best practice for environmental health/trading standards. |

**ATODLEN/SCHEDULE 9**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION DIWYLLIANT/CULTURE INDICATORS**

| **Rhif y dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 9.1 | Nifer y disgyblion ysgol yn ymweld ag amgueddfeydd ac orielau mewn grwpiau wedi'u trefnu gan ysgolion. | Number of school pupils visiting museums and galleries in organised school groups. |
| NAWPI 9.2 | Nifer yr ymweliadau corfforol â llyfrgelloedd cyhoeddus am bob 1,000 o boblogaeth yr awdurdod gwerth gorau yn ystod y flwyddyn ariannol. | The number of physical visits to public libraries per 1,000 population of the best value authority during the financial year. |
| NAWPI 9.3 | Pyllau nofio a chanolfannau chwaraeon:<br><br>nifer y nofiadau ac ymweliadau eraill am bob 1,000 o boblogaeth yr awdurdod gwerth gorau yn ystod y flwyddyn ariannol. | Swimming pools and sports centres:<br><br>the number of swims and other visits per 1,000 population of the best value authority during the financial year. |
| NAWPI 9.4 | Meysydd chwarae:<br><br>(a) nifer y meysydd chwarae a llecynnau chwarae a ddarperir gan yr awdurdod gwerth gorau, am bob 1,000 o blant dan 12 oed yn ardal yr awdurdod gwerth gorau, a<br><br>(b) y ganran o'r rhain sydd:<br><br>(i) yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol ar gyfer llecynnau chwarae digyfarpar lleol;<br><br>(ii) yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol ar gyfer llecynnau chwarae lleol gyda chyfarpar;<br><br>(iii) yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol ar gyfer llecynnau chwarae bro mwy eu maint a chyda chyfarpar. | Playgrounds:<br><br>(a) the number of playgrounds and play areas provided by the best value authority, per 1,000 children under the age of 12 in the best value authority area, and<br><br>(b) the percentage of these which:<br><br>(i) conform to national standards for local unequipped play areas;<br><br>(ii) conform to national standards for local equipped play areas;<br><br>(iii) conform to national standards for larger neighbourhood equipped play areas. |

**ATODLEN/SCHEDULE 10**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION LLYWODRAETH GORFFORAETHOL AWDURDODAU PARCIAU CENEDLAETHOL/NATIONAL PARKS AUTHORITY CORPORATE GOVERNANCE INDICATORS**

| **Rhif y dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 10.1 | Lefelau cydymffurfio â chynllun iaith Gymraeg cymeradwy yr awdurdod gwerth gorau, fel a gadarnhawyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. | The levels of compliance with the best value authority's approved Welsh language scheme as confirmed by the Welsh Language Board. |
| NAWPI 10.2 | Lefel safon y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol ar gyfer llywodraeth leol y mae'r awdurdod gwerth gorau yn cydymffurfio â hi. | The level of the Commission for Racial Equality's standard for local government to which the best value authority conforms. |
| NAWPI 10.3 | Nifer y cwynion i Ombudsmon a ddosbarthwyd fel camweinyddu. | The number of complaints to an Ombudsman classified as maladministration. |
| NAWPI 10.4 | Y ganran o'r anfonebau di-ddadl a dalwyd gan yr awdurdod gwerth gorau o fewn 30 diwrnod iddynt ddod i law. | The percentage of undisputed invoices which were paid by the best value authority within 30 days of such invoices being received. |
| NAWPI 10.5 | Y nifer o'r dyddiau gwaith neu sifftiau am bob cyflogai cyfwerth amser llawn yr awdurdod gwerth gorau a gollwyd drwy absenoldeb oherwydd salwch. | The number of working days or shifts per full time equivalent of all permanent best value authority employees lost due to sickness absence. |
| NAWPI 10.7 | Ymddeoliadau ar sail afiechyd fel canran o weithlu'r awdurdod gwerth gorau. | Ill health retirements as a percentage of the best value authority's workforce. |
| NAWPI 10.8 | Nifer y staff sy'n datgan eu bod yn ateb y diffiniad o anabledd yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (p.50) fel canran o weithlu'r awdurdod gwerth gorau. | The number of staff declaring that they meet the Disability Discrimination Act 1995 (c.50) disability definition as a percentage of the best value authority's workforce. |
| NAWPI 10.9 | Y nifer o staff o gymunedau ethnig lleiafrifol yn ngweithlu'r awdurdod gwerth gorau fel canran o gyfanswm gweithlu'r awdurdod. | The number of staff from minority ethnic communities within the best value authority's workforce as a percentage of the total workforce of the authority. |
| NAWPI 10.10 | Y ganran o gydadweithiau â'r cyhoedd, yn ôl y math o weithrediad, y gellir eu cyflwyno drwy wasanaeth electronig sydd yn cael eu cyflwyno wrth ddefnyddio protocolau rhyngrwyd a dulliau dibapur eraill. | The percentage of ineractions with the public, by type of transaction, which are capable of electronic service delivery which are being delivered using internet protocols or other aperless methods. |
| NAWPI 10.11 | Y ganran o adeiladau'r awdurdod gwerth gorau sy'n agored i'r cyhoedd a'r ganran sy'n addas ac yn hygyrch i bobl anabl. | The percentage of the best value authority's buildings open to the public and that are suitable and accessible to disabled people. |
| NAWPI 10.12 | Ydy'r awdurdod gwerth gorau wedi ffurfio polisi gorfforaethol a gyfer lleihau trosedd ac anrhefn yn eu hardal? | Has the best value authority established a corporate policy to reduce crime and disorder in their area? |

**ATODLEN/SCHEDULE 11**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION BUDD-DÂL TAI A BUDD-DÂL TRETH GYNGOR/HOUSING BENEFIT AND COUNCIL TAX BENEFIT INDICATORS**

| **Rhif y dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 11.1 / BV76 | Diogelwch: A oes gan yr awdurdod gwerth gorau strategaeth ysgrifenedig a blaenweithgar i fynd i'r afael â thwyll a chamgymeriadau sy'n ymgorffori mentrau penodedig gan gynnwys y rhai a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) sy'n cael ei mynegi i'r holl staff yn rheolaidd?<br><br>Oes/nac oes | Security: Whether the best value authority has a written and proactive strategy for combating fraud and error which embraces specified initiatives including those sponsored by the Department of Work and Pensions (DWP) which is communicated regularly to all staff?<br><br>Yes/no |
| NAWPI 11.3 (a)/ BV78a | Cyflymder prosesu:<br>(a) Amser cyfartalog prosesu ceisiadau newydd. | Speed of processing:<br>(a) Average time for processing new claims |
| NAWPI 11.3 (b)/ BV78b | (b) Amser cyfartalog prosesu hysbysiadau newid amgylchiadau. | (b) Average time for processing notifications of changes of circumstances. |
| NAWPI 11.3 (c) BV78c | (c) Canran y ceisiadau adnewyddu a brosesir yn brydlon. | (c) Percentage of renewal claims processed on time. |
| NAWPI 11.4 (a)/ BV79a | Cywirdeb prosesu:<br><br>(a) Canran yr achosion yr oedd cyfrifiad swm y budd-dâl sy'n ddyledus yn gywir ar eu cyfer ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael ar gyfer penderfynu, a hynny ar gyfer sampl o achosion sy'n cael ei gwirio ar ôl y penderfyniad arnynt. | Accuracy of processsing:<br><br>(a) Percentage of cases for which the calculation of the amount of benefit due was correct on the basis of the information available for the determination for a sample of cases schecked post-determination. |
| NAWPI 11.4 (b)/ BV79b | (b) Canran y gor-daliadau adenilladwy (heb gynnwys Budd-dâl Treth Gyngor) a adenillwyd yn y flwyddyn ariannol. | (b) The percentage of recoverable overpayments (excluding Council Tax Benefit) that were recovered in the financial year. |

*Nodyn: Nodir diffiniadau o dermau a chanllawiau ar fesur perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn "The Housing Benefit and Council Tax Benefit Management Information System Guide" a gynhyrchwyd gan yr AGP.*

*Note: Definitions of terms and guidance on measuring performance against these indicators are set out in the Housing Benefit and Council Tax Benefit Management Information System Guide produced by the DWP.*

**ATODLEN/SCHEDULE 12**

**Erthygl/Article 4**

**DANGOSYDDION DIOGELWCH CYMUNEDOL TRAWSBYNCIOL/CROSS CUTTING COMMUNITY SAFETY INDICATORS**

| **Rhif y dangosydd/ Indicator Number** | **Disgrifiad y dangosydd** | **Description of indicator** |
|---|---|---|
| NAWPI 12.1 / BV126 | Byrgleriaethau domestig am bob 1,000 o aelwydydd yn ardal yr awdurdod gwerth gorau. | Domestic burglaries per 1,000 households in the best value authority area. |
| NAWPI 12.2 / BV127 | Troseddau treisgar am bob 1,000 o boblogaeth yr awdurdod gwerth gorau:<br>(a) tramgwyddau treisgar a gyflawnwyd gan berson dieithr<br>(b) tramgwyddau treisgar a gyflawnwyd mewn man cyhoeddus<br>(c) tramgwyddau treisgar a gyflawnwyd mewn cysylltiad â safleoedd trwyddedig<br>(ch) tramgwyddau treisgar a gyflawnwyd o dan ddylanwad. | Violent crimes per 1,000 population, of the best value authority:<br>(a) violent offences committed by a stranger<br>(b) violent offences committed in a public place<br>(c) violent offences committed in connection with licensed premises<br>(d) violent offences committed under the influence. |
| NAWPI 12.3 / BV128 | Troseddau cerbydau am bob 1,000 o boblogaeth yr awdurdod gwerth gorau. | Vehicle crimes per 1,000 population of the best value authority. |
| NAWPI 12.4 / BV173 | A yw'r awdurdod gwerth gorau wedi sefydlu strategaeth gorfforaethol i leihau troseddau ac anhrefn yn eu hardal? Os nad ydyw, a yw'r awdurdod gwerth gorau wedi sefydlu amserlen ar gyfer gwneud hynny? | Has the best value authority established a corporate strategy to reduce crime and disorder in their area? If it hasn't, has the best value authority established a timetable for doing so? |

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2002

© Crown copyright 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090450-8

9 780110 904504

£4.00

W0023/04/02 ON